CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 14 Ionawr 2014 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Geraint Owen, Glyn Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Owain Owen, Iona Phillips, Ifan P Rowlands, Cynghorydd Ken P Hughes – Talybolion

Ymddiheuriadau John Griffith, Peredur Hughes, Ffion Roberts, John T Rowlands, Hugh Williams, Cynghorwyr Llinos Medi Huws a John W Griffith - Talybolion

Yn ychwanegol

1 Cofnodion cyfarfod Ionawr 2014
Nad oedd wedi bod yn bosib cynnal cyfarfod yn ystod Rhagfyr 2013.
Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Ionawr 2014 gyda Mr Arthur Jones yn cynnig a Mr Glyn Hughes yn eilio.

2 **CSYM : Cynllunio**

2.1 47C52F/RE Cais llawn ar gyfer gosod aneli solar (125kW) ar y tô yn / Full application for the installation of solar panels (125kW) on the roof at : *Alaw Water Treatment Works, Llantrisant*

Derbyn y cais yma.

3 **Budget**

3.1 Gosod Precept 2014/15 i CSYM

Roedd y Clerc wedi paratoi budget ar gyfer 2014-15. Roedd wedi gostwng ffigwr wrth gefn ar gyfer yr Etholiad nesaf (efallai 2017) i £200 am y bod digon o amser i 'safio' am gostau'r etholiad.

Penderfynwyd derbyn y budget fel y tablwyd ac i gadw'r Precept 2014/15 heb ei newid o 2013/14.

4 **CSYM**

4.1 Tai Penygroes
Roedd Cynghorydd John W Griffith wedi e-bostio'r Clerc i dynnu sylw y bu Adran Stadau, gyda swyddog Trefi Taclus, yn cynnal diwrnod clirio llanast a sbwriel o bob tŷ ym Mhenygroes ar y 20fed o Ionawr. Byddant yna fel tîm o swyddogion i helpu clirio tu allan a thu fewn i'r tai gyda sgip yno i fynd a phopeth o na.

4.2 Ymgynghoriad: Cwrdd â'r Heriau y Gyllideb 2014-15 – Cyfarfod Cyswllt, 23 Ionawr - sylwadau erbyn 30.1.14
Efallai bu'r Clerc yn gallu mynd i'r cyfarfod yma.

4.3 Gwynedd a Môn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Safleoedd Tai Posib – dyddiad sylwadau wedi ymestyn i 31 Ionawr
Roedd y Clerc wedi bod i seminar ynglŷn â hwn cyn y Nadolig. Y teimlad oedd nad oedd unrhyw ddiddordeb yn gefn gwlad yn y Cynllun .

5 **Un Llais Cymru**

5.1 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn – Llangefni, 29 Ionawr @ 7 o'r gloch –
Nodwyd ag ymddiheuro.

5.2 Hyfforddiant
Bu'r Clerc yn trefnu i Owain Owen a hithau fynd i sesiwn Deall y Gyfraith yn Llangefni, 19 Chwefror.

5.3 Buckingham Palace Garden Parties – Cadeirydd yn unig
Nodwyd ond dim diolch.

5.4 Ymgeiswyr yn etholiad cynrychiolydd Un Llais ar Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Candidates for the role of One Voice Wales representative on the Betsi Cadwaladr University Health board Stakeholder Reference Group)
Penderfynwyd pleidleisio am yr ymgeisydd mwya' lleol i Dref Alaw, sef Cyng. Abbot.

6 **Llywodraeth Cymru**

6.1 Gwariant Adran 137 : y terfyn ar gyfer 2014-15
£7.20 yw'r swm priodol at ddibenion adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

6.2 Ymgynghoriad ar gynlluniau i Ddirymu ac Ail-wneud Rheoloiadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 – sylwadau erbyn 3 Ionawr

7 **Materion a chodwyd**

Safle Ysgol Llanddeusant
Roedd y Clerc wedi holi Mr Elfyn Williams o ERW Consulting ynglŷn â'r posibilrwydd o apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor Cynllunio CSYM. Ei ymateb oedd nad ydy'n bosib i 'third party' gwneud apêl. Yn y cyfamser mae ymholiadau yn parhau gyda'r posibilrwydd o restru'r adeilad.

Taliadau	RMJ Garden Maintenance	£60
Arian i mewn	CSYM – Precept	£1,233.33

Post ers y cyfarfod diwethaf

CSYM:	Penderfyniadau Cynllunio diweddaraf:	47C137/LB : Tre'r Ddol, Llandrygarn – Caniatâd 47C121A : Ger Hen Blas, Llanddeusant – Caniatâd
Wylfa NB Project Liaison Group		Cyfarfod 12.12.13
Cyfoeth Naturion Cymru	Rheoleiddwyr yn dechrau'r asesiad dylunio cyffredinol ar adweithydd niwclear newydd	
AirVolution	Ysgellog 2 – two wind turbines at Bodewryd Farm – feedback from Community Information Day	
Llywodraeth Cymru	"Words into Action" : Welsh Language in Health, Social Services & Social Care Conference and Awards 2014 Penodiad Cadeirydd - Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth Cymru	
North Wales Police	Y Cynllun Heddlu a Throsedd – Ail Alwad am Dystiolaeth	
Post Office	Looking for volunteer members of a new Post Office Advisory Council	